Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# **Amserlen ar gyfer ystyried:** Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)

Gorffennaf 2025

Ar 14 Gorffennaf 2025, cyflwynwyd y Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) yn y Senedd.

Ar 24 Mehefin 2025, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i ystyried yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt.

Ar 8 Gorffennaf 2025, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.7, ar amserlen ar gyfer gwaith y Pwyllgor o ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil, gan gytuno y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 5 Rhagfyr 2025.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 6 Chwefror 2026, ar yr amod bod y Senedd yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.